# BETH YW IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG YN Y GYMUNED?

Mae'r diagram hwn yn dangos Gofal Cymunedol Uwch (GCU) fel un elfen o ddull iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n seiliedig ar le. Galluogi pobl i fyw'n dda gartref trwy atal, dewis, lles ac annibyniaeth. Mae GCU yn darparu tîm amlasiantaethol o amgylch ymateb y person, gyda grŵp poblogaeth a nodir, gan osgoi argyfwng ac uwchgyfeirio acíwt / ymyriadau lle bo hynny'n ymarferol a gwneud y mwyaf o adferiad ar ôl uwchgyfeirio acíwt.

**DARPARU GWASANAETH AMLBROFFESIYNOL**

Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar sefyllfa person ar y model, megis ffactorau iechyd, cymdeithasol, ariannol neu emosiynol.

**POBLOGAETH - AT BWY MAE'R YMYRRAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL WEDI EI ANELU**

Poblogaeth fwy/ehangach ar 1, gan leihau i fod yn llai ar 4

STRATEGIC PROGRAMME FOR PRIMARY CARE

**TÎM O AMGYLCH YR UNIGOLYN YN SEILIEDIG AR ANGHENION IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A LLES UNIGOLYN**

## 1

**Cymunedau lleol, dim mynediad rheolaidd, yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth mewn ardal ddiffiniedig.**

Y rhai sy'n byw mewn cymunedau sydd â mynediad achlysurol i ofal sylfaenol neu gymdeithasol – h.y. cymorth tai, neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd wedi'u rheoli'n dda e.e. asthma.

Efallai y bydd neu efallai na fydd yn cael gafael ar gymorth, e.e. gwasanaeth meddyg teulu ar gyfer sgrinio cyffredinol, imiwneiddio neu adnoddau cymunedol ar gyfer hunan-atgyfeirio.

## 2

**Cymorth arferol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

Y rhai sy'n byw mewn cymunedau sydd â mynediad rheolaidd i ofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, annibynnol a/neu'r trydydd sector i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd, cymdeithasol a lles - anghenion nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymhleth

Gall fod yn defnyddio cymorth gan dim amlbroffesiynol a / neu weithwyr proffesiynol neu wasanaethau penodol, e.e. gofal cartref, ailalluogi a phartneriaid trydydd sector

## 3

**Gweithio amlbroffesiynol angen mwy o gymorth - ddim mewn argyfwng.**

Gellir cynyddu'r cymorth am gyfnod byr gyda ffocws ar atal dirywiad neu argyfwng. Gall person fod yn byw gartref, mewn tai gwarchod neu ofal preswyl

Mae angen mwy o gymorth i gynnal lles, annibyniaeth a/neu reolaeth o'u cyflwr - efallai y bydd angen cymorth cydlynydd gofal

## 4

**GOFAL A CHYMORTH CYMUNEDOL GWELL - anghenion cymhleth a/neu mewn perygl o argyfwng.**

Gall person fod mewn perygl o gael eu derbyn i'r ysbyty – ymyrraeth sy'n benodol i amser gyda chanlyniad clir wedi'i nodi, gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a phobl

Mae angen cymorth amlasiantaethol /amlbroffesiynol lle mae amser yn gyfyngedig – gall groesi rhwng gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, gan ddefnyddio cymysgedd o dechnoleg a chymorth wyneb yn wyneb

## GOFAL O AMGYLCH YR UNIGOLYN

Mae'r model yn dangos haenau gwahanol 'sefyllfa o angen' ymyriadau Gofal Sylfaenol person

Mae person yn teithio trwy'r 4 lefel i'r ddau gyfeiriad,gan dderbyn y gofal a'r gwasanaethau sydd eu hangen bryd hynny.

Mwy o wybodaeth sganiwch y Côd QR neu ewch i: gofalsylfaenolun.gig.cymru/offer/tudalen-lanio-seilwaith-cymunedol/

©SCARLET DESIGN INTERNATIONAL LTD 2023